# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 18 Ionawr 2021

## SL(5)712 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Diwygiodd Rheoliadau 2020 Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws, er mwyn caniatáu— (a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod, a (b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Mae Rheoliad 2(2) yn nodi y bydd Rheoliadau 2020 yn peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021. Prif effaith rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yw diwygio'r dyddiad 31 Ionawr 2021 yn Rheoliadau 2020 i 30 Medi 2021. Golyga hyn fod y diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2020 yn parhau i gael effaith tan 30 Medi 2021.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
**Fe'u gwnaed ar:** 18 Rhagfyr 2020
**Fe'u gosodwyd ar:** 22 Rhagfyr 2020
**Yn dod i rym ar:** 30 Ionawr 2021